Hawdd ei Ddeall

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Llysgenhadon Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Barn plant ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol



llyw.cymru

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Rhaglen Cyfranogiad Plant yng Nghymru 2024/25 – Adroddiad Diwedd Blwyddyn ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Plant yng Nghymru**. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

**Gwefan:** www.childreninwales.org.uk/cy/

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am yr adroddiad yma ........ 4**

**Beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud wrthyn ni ........ 6**

1. Amdanoch chi yn yr ysgol ........ 6

2. Am eich ysgol ........ 15

3. Am eich dyfodol ........ 19

**Beth sy’n digwydd nesaf ........ 23**

# Am yr adroddiad yma



**Plant yng Nghymru** ydyn ni. Rydyn ni'n gweithio i wella bywydau plant a phobl ifanc ar draws Cymru.




Mae'r ddeddf yn cael ei galw yn **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysgol (Cymru) 2018**. Fe fyddwn ni'n ei galw'n **Ddeddf ADY** yn fyr.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn i ni ddarganfod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am y ddeddf yma.




Fe wnaethon ni gynnal sesiynau mewn gwahanol ysgolion. Yn Gymraeg a Saesneg.



Roedd y plant a’r bobl ifanc rhwng 6 ac 16 oed. Fe wnaethon ni siarad â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.




Fe wnaethon ni ofyn am 3 prif faes sy’n gysylltiedig â’r Ddeddf ADY. Dyma nhw:

1. Amdanoch chi yn yr ysgol
2. Am eich ysgol
3. Am eich dyfodol

# Beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud wrthyn ni



Nawr fe fyddwn ni'n rhannu beth mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthyn ni am y meysydd yma.

## 1. Amdanoch chi yn yr ysgol

### Perthnasoedd ag athrawon



Fe ddywedodd plant pan oedd gan athrawon berthynas dda gyda nhw, roedd eu hanghenion yn cael eu hateb yn well.



Roedd athrawon da yn:

- Caredig
- Doniol
- Ymddiriedus
- Gwneud i'r ysgol deimlo'n ddiogel



Roedd plant yn teimlo bod yr athrawon yma yn gwrando arnyn nhw ac yn eu parchu.



Doedd athrawon oedd yn rhy llym, yn gweiddi arnyn nhw neu yn gwneud iddyn nhw frysio ddim yn ateb eu hanghenion.



Roedd plant yn teimlo eu bod yn fwyaf rhan o'r Ysgol pan oedden nhw'n cael eu gweld, eu parchu a'u gwerthfawrogi.



Roedd canmoliaeth a bod yn bersonol yn eu helpu i deimlo'n dda.



Roedd perthynas wael ag athrawon yn gwneud i blant beidio â bod eisiau cymryd rhan yn yr ysgol.



Roedd yn bwysig i blant allu gofyn am gefnogaeth.

# Yn yr ysgol



Fe ddywedodd plant ei fod yn helpu pan oedd ysgolion yn defnyddio dulliau wedi'u canoli ar y person. Mae hyn yn meddwl edrych ar anghenion pob plentyn a'u helpu yn y ffordd orau iddyn nhw. Er enghraifft, gwaith 1 i 1 neu grwpiau bach.



Roedd plant yn ei chael hi'n ddefnyddiol pan oedd athrawon yn gwrando ac yn hyblyg.



Mae'r pethau yma yn helpu plant i ymdopi'n well a theimlo'n gryfach. Pan oedd athrawon yn gweithio gyda'u hanghenion, roedd yn cael effeithiau cadarnhaol.



Fe ddywedodd plant ei bod hi'n bwysig eu bod nhw'n gallu bod yn agored ac yn onest. Roedden nhw'n hoffi athrawon yn dweud wrthyn nhw ei bod hi'n iawn gwneud camgymeriadau.



Doedd rhai plant ddim yn hyderus bod yr ysgol yn gallu ateb eu hanghenion.



Weithiau doedd gan ysgolion ddim digon o amser nac adnoddau.



Roedd rhai plant yn teimlo nad oedd yr ysgol yn deall eu hanghenion.



Roedd rhai plant yn teimlo nad oedden nhw'n gallu gofyn am fwy o gefnogaeth oherwydd bod eraill hefyd angen help.



Doedd rhai ddim yn gallu gofyn am help oherwydd bod ganddyn nhw berthynas anodd gydag athrawon neu ddisgyblion eraill.



Mae rhai plant wedi gadael pynciau oherwydd nad oedden nhw'n gallu cael cefnogaeth.



Fe wnaeth y plant siarad am ba mor bwysig ydy technoleg ac adnoddau eraill. Roedd y rhain yn helpu gyda'u dysgu.



Fe ddywedodd rhai plant:

- Roedd cymorth 1 i 1 yn helpu.
- Roedd amserlenni hyblyg yn helpu. Roedd mannau tawel neu llonydd yn eu helpu i ddysgu'n well.

## Cyfarfod cynllunio a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person



Roedd anghenion, oedran a dewisiadau plant yn newid faint maen nhw'n ymuno â'u cyfarfodydd am gefnogaeth.



Doedd rhai plant ddim yn deall rhai o'r geiriau oedd yn cael eu defnyddio mewn ADY. Ond roedden nhw'n gwybod bod eu hanghenion yn cael eu hateb.




Fe ddywedodd rhai plant fod y Cynllun Datblygu Unigol wedi eu helpu i deimlo bod pobl yn eu hadnabod ac yn gwrando arnyn nhw.



Ond roedd rhai yn dweud eu bod yn hen ac ddim yn ddefnyddiol nawr.



Fe ddywedodd plant fod eu cyfarfodydd wedi eu helpu i wneud cynnydd. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod pobl yn yn gwrando arnyn nhw.



Roedd rhai plant yn dawel mewn cyfarfodydd ond yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw y tu allan i'r cyfarfodydd.



Roedd cyfarfodydd yn helpu plant i ddeall penderfyniadau am eu haddysg a'u bywyd. Roedd hyn yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn eu gwneud yn fwy hapus.



Roedd rhai yn dweud nad oedden nhw bob amser yn onest. Doedd sgyrsiau ddim yn teimlo'n bwysig nac yn ddefnyddiol iddyn nhw.



Fe ddywedodd rhai fod sgyrsiau am y 6ed dosbarth yn eu cynhyrfu. Doedden nhw ddim yn teimlo y bydden nhw'n gallu cael y gefnogaeth gywir yn y 6ed dosbarth.

# Iaith a Hawliau Plant




Roedd pob plentyn yn siarad am iaith a dweud nad oedd ots os oedd athrawon yn defnyddio’r Gymraeg ai peidio.



Fe ddywedodd rhai plant ei bod hi’n anodd pan nad oedd athrawon bob amser yn defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg. Roedden nhw’n dweud ei fod yn gwneud dysgu yn flinedig, yn enwedig pan mae geiriau yn anodd.



Doedd plant ddim yn gwybod llawer am eu hawliau o dan y system ADY.

# 2. Am eich ysgol

## Hapusrwydd yn yr ysgol



Fe ddywedodd plant eu bod fwyaf hapus pan oedd ganddyn nhw berthynas dda gydag athrawon a phlant eraill.



Mae'r perthnasoedd yma yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n gryf.



Roedd athrawon positif yn eu helpu i dyfu a dysgu.



Roedd plant yn hoffi:

- Gwersi roedden nhw’n eu mwynhau
- Cefnogaeth gan athrawon
- Bod y tu allan ym myd natur



Fe ddywedodd plant fod arholiadau wedi achosi pwysau ac wedi effeithio ar eu lles.



Mae agweddau negyddol gan athrawon yn brifo teimladau a dysgu plant.

## Cymryd rhan yn yr ysgol



Fe wnaethon ni ofyn i blant oedden nhw eisiau cymryd rhan yn yr ysgol. Roedd atebion yn gymysgedd o ie, na, ac mae’n dibynnu.



Fe ddywedodd rhai plant fod cryfderau athrawon wedi eu helpu i gymryd rhan



Roedden nhw’n siarad am amser roedden nhw wedi ei dreulio gyda hoff athrawon oedd yn gallu gwneud iddyn nhw chwerthin.



Roedden nhw’n teimlo’n fwy abl i gymryd rhan pan oedd dysgu yn teimlo’n greadigol ac ymarferol.



Roedden nhw hefyd yn teimlo’n fwy abl i gymryd rhan pan oedd gan y gwaith bwrpas.



Neu pan oedd athrawon yn meddwl am eu dulliau dysgu a chyfathrebu plant.



Fe ddywedodd rhai plant y byddai llai o ysgrifennu a dysgu mwy ymarferol yn helpu.



Roedd rhai yn teimlo nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud am fwlio. Roedd hyn yn eu stopio rhag ymuno. Roedd yn eu stopio rhag fod eisiau dysgu.



Fe wnaeth 1 disgybl anabl siarad am wers gampfa lle nad oedd yr athro yn deall eu hanghenion. Yn y pen draw, doedden nhw ddim eisiau cymryd rhan.



Fe ddywedodd plant fod cyfeillgarwch yn bwysig ac yn rhoi cefnogaeth.

# 3. Am eich dyfodol

## Nodau mewn addysg




Roedd pob plentyn eisiau mynd i 6ed dosbarth, coleg neu gael swydd.



Fe ddywedon nhw fod cefnogaeth emosiynol a chyngor gyrfaoedd o'r ysgol wedi eu helpu.



Roedd rhai yn gwybod pa swydd roedden nhw eisiau. Doedd eraill ddim yn siŵr.




Pethau oedd wedi helpu plant i deimlo y bydden nhw'n gallu cyrraedd eu nodau oedd:

- Perthnasoedd da
- Canlyniadau arholiadau
- Mwynhau eu pynciau



Weithiau roedd gan athrawon syniadau gwahanol iddyn nhw am beth roedd y plant yn gallu ei gyflawni.



Roedd rhai plant yn poeni am fynd i'r coleg. Roedden nhw'n poeni am eraill yn eu barnu a sut fyddai'r coleg.

# Cymryd rhan y tu allan i'r ysgol



Doedd y rhan fwyaf o blant ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.



Roedd rhai yn ymuno gyda grwpiau cymdeithasol neu weithgareddau iechyd meddwl.



Roedd plant yn siarad am hobïau fel chwaraeon, hapchwarae a chyfryngau cymdeithasol.



Roedden nhw'n dweud fod angen cludiant a mwy o gyfleoedd i wneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.



Roedd rhai yn poeni am fwlio a byw ymhell o lefydd i fynd.

Mae'r rhaglen wedi gwneud 3 pheth:



- Mae wedi rhannu profiadau plant o'r system ADY.



- Mae wedi dangos enghreifftiau da o beth sy'n gweithio'n dda mewn gwahanol leoedd.



- Mae wedi dod o hyd i feysydd sydd angen eu gwella.

# Beth sy'n digwydd nesaf



Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i edrych yn fwy manwl ar y meysydd yma. Fe fydd hyn yn digwydd ym mlwyddyn olaf y rhaglen.



Fe fyddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd o rannu beth mae plant a phobl ifanc yn feddwl gydag athrawon, ysgolion, a lleoliadau eraill.

